

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

28ain Tachwedd 2021

Annwyl Gyfaill,

CYNHELIR CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY **Nos Fercher yr 8fed o Rhagfyr am 7.30pm** yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Yn unol a'r cyfarfodydd diwethaf, bydd rhaid dilyn canllawiau clir y Neuadd yn ystod y noson drwy fynd i mewn o'r Brif Fynedfa, defnyddio y deunydd diheintio, a cherdded llwybr un ffordd ayyb.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,
Huw T Jones
CLERC

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd a derbyn ymddiheuriadau.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Hydref - gweler gopi yn atodol. Hefyd rhan caeedig o'r cyfarfod (l'w ddsbarthu arwahan)
4. **Materion yn codi.**
 - a) Materion Priffyrdd a chefnffyrdd.
 - b) Coeden mynwent Mallwyd.
 - c) Prosiect 'Ein Hardal ni – Dolgellau 2035'.
 - d) Coeden Nadolig o flaen y Neuadd yn Dinas.
 - e) Hyfforddiant cynghorwyr cymuned
 - f) Arwydd mynwent Mallwyd.
 - g) Oedi gyda gwasanaethau ambiwlans

5. Materion Cynllunio

NP5/74/496 – Trosi adeilad amaethyddol traddodiadol yn anedd menter gwledig a llety gwyliau, a Gwaith cysylltiedig yn Gwastadgoed, Aberangell.

NP5/ 74/482A – Adeiladu ty fforddiadwy (ail-gais) Tir ger y fynwent, Dinas Mawddwy (y ddau uchod wedi eu cylchredeg, eisoes)

NP5/74/333K – Cysgodfa ffram goed a tho rhychiog l orchuddio eisteddle allanol presennol y caffi, a cysgodfa ffram goed atho rhychiog l'w osod o flaen y siop fferm bresennol – Canolfan Arddio Camlan

NP5/74/305A – Adeiladu ty deulawr arwahan – Tir ger Tydecho, 7 Mawddwy Terrace, Minllyn.

Hefyd, cais gan Coed Cymru am sylwadau ynglyn a plannu coed caled ar dir yn Pennant, Llanymawddwy.

6.Materion Cyllid

Nodi derbyn ychwanegiad l'r praesept - £700

Anfoneb gan A Johnson am waith ym mynwent Mallwyd a Dinas Mawddwy £600.

Ceisiadau am arian - Ambiwllans Awyr Cymru, Ty Gobaith ag Urdd Gobaith Cymru

Adolygu y gwariant l'w gymharu a'r gyllideb.

Ystyried y praesept ar gyfer 2022-23.

7.Gohebiaeth

Cronfa prosiectau cymunedol – Parc Cenedlaethol Eryri

Prosiect tyfu Dyfi – (dosbarthwyd eisoes)

Cais pellach am gofnodion y Cyngor yn saesneg gan aelod o'r cyhoedd

Cyfarfod Blynyddol Eco Dyfi, Nos Fawrth 11eg o Ragfyr

8.Unrhyw fater arall